Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Preseli

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Preseli yn gymuned hapus, falch a chyfeillgar lle mae staff a disgyblion yn mwynhau dysgu yng nghwmni ei gilydd. Mae gweledigaeth uchelgeisiol y pennaeth o ddatblygu'r disgyblion 'O'r Gwreiddiau i'r Gorwelion' i'w gweld a'i theimlo ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae staff yn cynllunio cwricwlwm a phrofiadau dysgu gwerthfawr ac yn cynnig myrdd o weithgareddau allgyrsiol llesol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y weledigaeth hon. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu balchder yn eu milltir sgwar, yn ffynnu yn eu dysgu a'u datblygiad cymdeithasol ac yn barod am y cam nesaf yn eu dysgu.

Nodwedd arbennig ymysg arweinwyr a staff yw'r cyd-ddealltwriaeth a'r cydweithio effeithiol er mwyn gwireddu amcanion penodol. Pan mae arweinwyr yn adnabod maes penodol i'w ddatblygu, maent yn llwyddo i ysgogi staff i ymgymryd â'r gwaith gwella a'i berchnogi. Er enghraifft, datblygodd arweinwyr strategaeth ysgol-gyfan i wella medrau llythrennedd disgyblion, gyda ffocws arbennig ar gryfhau medrau darllen. Yn sgil cyfarwyddyd a chefnogaeth bwrpasol, mae gan staff ddealltwriaeth glir o'u rol a'u cyfrifoldeb i ddatblygu'r  medrau hyn. O ganlyniad, maent yn darparu cyfleoedd buddiol a heriol i ddisgyblion i sicrhau eu bod yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus a medrus yn unol â'u hoedran a'u gallu.

Mae'r cyd-berthynas rhwng disgyblion a staff yn gadarnhaol a pharchus. Mae ymddygiad ac agweddau at ddysgu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ardderchog. Mae llawer o athrawon yn cynllunio sesiynau dysgu'n ofalus i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn mwynhau cyflawni tasgau diddorol. Mewn lleiafrif o achosion, lle mae'r addysgu yn hynod effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Ceir trefniadau gwerthuso a gwella pwrpasol ac mae arweinwyr yn ystyried effaith eu gwaith ar y ddarpariaeth ac ar les disgyblion yn rheolaidd. Maent yn arfarnu ansawdd yr addysgu trwy weithgareddau monitro sefydledig ond nid yw pob arweinydd yn rhan o'r gwaith gwerthuso hwn ac nid yw arfarniadau'n nodi'n ddigon clir effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol ac yn cefnogi gwaith yr ysgol yn fuddiol. Rhoddir ystyriaeth deilwng i leihau effaith tlodi a thlodi cefn gwlad ar les a chyflawniad disgyblion. Maent yn rhannu'r uchelgais o ymgyrraedd at lefelau llesiant uchel ymysg y disgyblion. Er bod presenoldeb disgyblion yn y sector cynradd wedi gwella dros amser, nid yw cyfraddau presenoldeb disgyblion yn y sector uwchradd, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim, wedi gwella digon.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella presenoldeb disgyblion yn y sector uwchradd, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim

A2 Sicrhau bod arweinwyr canol yn chwarae rhan lawn mewn arsylwadau gwersi er mwyn cryfhau eu gallu i arfarnu effaith yr addysgu ar y dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2025